**Rhybudd Preifatrwydd Llywodraethwyr Ar-lein**

**Eich Gwybodaeth Bersonol**
Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am eich gwybodaeth bersonol.

**Pam ein bod angen eich gwybodaeth**
Rydym yn casglu eich gwybodaeth er mwyn gwybod pwy yw'r unigolion sydd yn Llywodraethu Ysgolion Gwynedd a bod hynny'n cyd-fynd â gofynion statudol Llywodraeth Cymru.

**Cyfiawnhad dros ddefnyddio eich gwybodaeth**
Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol i wneud hynny; neu i berfformio tasg sydd er budd cyhoeddus; neu am eich bod wedi rhoi eich caniatâd. Y term cyfreithiol am hyn yw y *sail gyfreithlon dros brosesu*.

Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol dan Offerynnau Statudol – Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Ni fydd y Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio.

**Pwy arall fydd yn derbyn eich gwybodaeth**
Byddwn yn rhannu'r wybodaeth efo Cwmni GwE, Cwmni Cynnal ac Estyn.
Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i wlad arall.

**Pa mor hir fyddwn yn cadw eich gwybodaeth**
Byddwn yn cadw eich gwybodaeth fel Llywodraethwr am **4 blynedd** yn dilyn gorffen cyfnod fel Llywodraethwr. Mae mwy o wybodaeth am ein cyfnodau cadw ar gael gan y Swyddog Diogelu Data.

**Eich hawliau**
I gael gwybodaeth am eich hawliau a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, ewch i wefan www.gwynedd.llyw.cymru.